# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

**RHAN 3**

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

**PENNOD 8**

DELIO

*Contractau isfeddiannaeth*

**60 Nid yw contract isfeddiannaeth byth yn cael effaith fel trosglwyddiad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth ("y prif gontract") yn gwneud contract isfeddiannaeth, a bod cyfnod y contract isfeddiannaeth yn dod i ben ar yr un pryd â chyfnod y prif gontract.

(2) Mae'r contract isfeddiannaeth yn cael effaith fel contract isfeddiannaeth (ac nid fel trosglwyddiad i'r isddeiliad).